**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET**

**DYDD IAU, 30 GORFFENNAF 2020**

**Y Cabinet:**

Cynghorwyr:: R.G.Jones (Cadeirydd), C.Clement-Williams, D.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, A.Wingrave a/ac L.Jones

**Swyddogion yn bresennol:**

A.Evans, A.Jarrett, H.Jenkins, K.Jones, C.Griffiths, D.Griffiths, C.Furlow-Harris, J.Griffiths, A.James, R.Headon, S.Blewett, C.Davies, C.Plowman a/ac T.Davies

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd R G Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **TROSOLWG O'R YMATEB RHANBARTHOL I COVID SY'N CANOLBWYNTIO AR GARTREFI GOFAL**

Canmolodd Aelodau'r Cabinet waith holl staff y cyngor mewn perthynas ag argyfwng COVID-19.

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

3. **DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2019/2020**

**Penderfyniadau:**

1. Nodi'r gwaith a wnaed gan y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol i ddatblygu'r adendwm drafft.

2. Cytuno ar yr adendwm drafft a atodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd, sy'n cynnwys y tabl gwaith gwella diwygiedig ar gyfer 2020/2021.

3. Y dylid cymeradwyo disodli'r tabl gwaith gwella ar gyfer 2020/2021 a gynhwysir yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2019/2020 (a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 21 Mai 2020) gyda'r camau gwella a nodwyd yn yr adendwm yma.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

1. I sicrhau bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn bodloni gofynion Rheoliad 5(2) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mewn perthynas â'r adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd systemau rheoli mewnol y cyngor a pharatoi a chymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

2. I fodloni'r cais a wnaed gan y Cabinet ar 21 Mai 2020 i adolygu'r gwaith gwella a amlinellwyd ar gyfer gweithredu yn ystod 2020/2021.

3. I sicrhau bod y materion a nodwyd yn y papur briffio ar gyfer Fforwm Llywodraethu Gwell CIPFA yn cael eu hystyried.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

4. **ADRODDIAD BLYNYDDOL AR SAFONAU'R GYMRAEG 2019-2020**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

5. **CNPT 'SAFE AND WELL' - CYMORTH DYNGAROL A DDARPARWYD GAN Y CYNGOR MEWN YMATEB I'R PANDEMIG COVID-19**

**Penderfyniadau:**

1. Nodi'r modd y darparodd y cyngor gymorth dyngarol yn ystod cam ymateb i argyfwng COVID-19, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a'r DU.

2. Nodi'r camau sy'n cael eu cymryd i drosglwyddo pobl sy'n dal i dderbyn gwasanaeth i drefniadau mwy addas a chynaliadwy o ran casglu bwyd a meddyginiaeth erbyn diwedd Gorffennaf a chyn y bydd y cynllun cysgodi yn cael ei rewi ar 16 Awst 2020.

3. Nodi bod y gwersi a ddysgwyd o'r gwaith i'r Panel Aelodau a sefydlwyd gan y cyngor i lywio'r broses o gynllunio adferiad, a oedd yn ceisio barn am y ffordd y gellir defnyddio'r gwersi hyn i lywio'r broses sefydlogi a chynllunio adferiad.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

1. Nodi a chymeradwyo'n ffurfiol y gwaith cynllunio pontio sy'n cael ei wneud i adael preswylwyr sydd angen cymorth dyngarol gan y cyngor yn unol â'r amserlenni a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru – h.y. y caiff y gwasanaeth dosbarthu bwyd cenedlaethol ei rewi ar 16 Awst 2020, a bydd gwasanaethau dosbarthu fferylliaeth gymunedol yn cael eu hadolygu ddiwedd mis Medi 2020.

2. Sicrhau bod ystyriaeth ffurfiol yn cael ei rhoi i'r gwersi a ddysgwyd o'r ymateb brys a bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu defnyddio i lywio'r broses sefydlogi, cynllunio adferiad tymor hwy a gwaith ehangach y cyngor.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

6. **STRATEGAETH ADFER**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo Sefydlogi Symud Ymlaen: COVID-19 drafft - Y Cyfnod rhwng y Strategaeth Ymateb ac Adfer, fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Galluogi'r cyngor i ymgymryd ag ymagwedd gyson a chydlynol wrth i ni symud tuag at adferiad.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

7. **EITEM**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

8. **EITEM**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

9. **ADRAN 38 O’R POLISI MABWYSIADU PRIFFYRDD NEWYDD**

**Penderfyniad:**

Bod y Polisi ar gyfer Cytundebau Mabwysiadu Priffyrdd Adran 38 fel y'i nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd, yn cael ei fabwysiadu i'w weithredu.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

I sicrhau bod gan yr Awdurdod Priffyrdd bolisi a meini prawf clir ar waith wrth asesu a gwerthuso unrhyw geisiadau ffurfiol i fabwysiadu unrhyw

briffyrdd ger Castell-nedd Port Talbot a diogelu'r cyngor rhag pwysau ariannol diangen.

**<u>Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:</u>**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**CADEIRYDD**